# Y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau

## Cofnodion EIN(2) 01-07

### Dyddiad y cyfarfod: 17 Ionawr 2007
### Amser y cyfarfod: 9.00 – 12.25
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 3, Y Senedd, Bae Caerdydd

#### Aelodau Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Andrew Davies (Gweinidog) | Gorllewin Abertawe |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Alun Ffred Jones | Caernarfon |
| Carl Sargeant | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Kirsty Williams | Brycheiniog a Sir Faesyfed |

#### Eraill yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl swydd** |
|---|---|
| John Pockett | Rheolwr Rhanbarthol Cymru, First Great Western |
| Tom Stables | Rheolwr Masnachol, First Great Western |
| Stephen Clark | Rheolwr Is-adran – Polisi Rhanbarthol a Chyflawni, yr Adran Drafnidiaeth |
| Denise Rose | Yr Adran Drafnidiaeth |
| Stella Mair Thomas | Cynrychiolydd Cymru, Passenger Focus |
| Simon Pickering | Rheolwr Cyswllt Teithwyr, Passenger Focus |

**Swyddogion yn Bresennol**

| **Enw** | **Teitl swydd** |
|---|---|
| Gareth Hall | Cyfarwyddwr, yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau |
| James Price | Cyfarwyddwr, Polisi a Strategaeth |
| Robin Shaw | Cyfarwyddwr, Trafnidiaeth Cymru |
| Sharon Linnard | Cyfarwyddwr, Gweithrediadau a Buddsoddi Cymru |
| Cathy Presland | Pennaeth y Gangen Polisi a'r Uned Trawsbynciol, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |

**Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad**

| **Enw** | **Teitl swydd** |
|---|---|
| Claire Morris | Clerc y Pwyllgor |
| Abigail Phillips | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad |
| Graham Winter | Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau |
| Ben Stokes | Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau**

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

1.2 Mae cofnod gair-am-air o'r cyfarfod ar gael.

**Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion a gododd**
**Papurau: EIN(2) 12-06 – Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2006**
**EIN(2) 01-07 – Camau heb eu cymryd**

2.1 Cynhaliwyd pleidlais ar gynnig i beidio ?hynnal cyfarfod ar 1 Chwefror ac i drefnu trafodaeth ar werth ychwanegol crynswth Cymru yn y cyfarfod i'w gynnal ar 14 Chwefror.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:

- Leighton Andrews;
- Andrew Davies;
- Carl Sargeant;
- Kirsty Williams.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:

- Alun Cairns;
- Janet Davies;
- Alun Ffred Jones.

Ni phleidleisiodd y Cadeirydd.

Felly, derbyniwyd y cynnig.

2.2 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr yn gywir.

2.3 Byddai Robin Shaw yn cadarnhau'r dyddiad y disgwylir canlyniadau astudiaeth Network Rail o adroddiad Atkin.

**Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog**
**Papur: EIN(2) 01-07 p1 – Adroddiad y Gweinidog**

3.1 Cafodd y pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog.

**Camau i'w cymryd:**

- Byddai'r Gweinidog yn darparu gwybodaeth ar dueddiadau tymor hir o safbwynt diweithdra ac anweithgarwch economaidd yng Nghymru fesul rhyw.
- Byddai'r Gweinidog yn rhoi manylion o'r broses a ddilynir wrth asesu ceisiadau i'r Gronfa Datblygu Llwybrau a'r meini prawf a ddefnyddir o ran y ceisiadau hynny.
- Byddai'r Gweinidog yn rhoi manylion o'r cwmni hedfan a fyddai'n cael arian oddi wrth y Gronfa Datblygu Llwybrau i helpu lansio gwasanaeth hedfan newydd rhwng Caerdydd a Barcelona pan fyddai'r cyfnod cyfrinachedd 90 diwrnod wedi dirwyn i ben.
- Byddai'r Gweinidog yn rhoi manylion o bolisi Llywodraeth y Cynulliad o safbwynt cilfannau, cyfleusterau gorffwys a thoiledau cyhoeddus ar gefnffyrdd yng Nghymru.
- Byddai'r Gweinidog yn rhoi manylion cwmn? yng Nghymru a oedd wedi llwyddo gyda'u cynigion am Gymorth Rhanbarthol Dewisol a Grant Buddsoddi'r Cynulliad.
- Byddai'r Gweinidog yn cadarnhau lleoliad daearyddol Burtech Cyf Ltd.
- Byddai'r Gweinidog yn rhoi manylion o'r cyfraniad ariannol a wneir gan Gyngor Dinas Caerdydd tuag at wella'r seilwaith a gwasanaethau ym Mae Caerdydd neu o amgylch.

**Eitem 4: Rhestr o Is-ddeddfwriaeth**
**Papur: EIN(2) 01-07 p2**

4.1 Nodwyd gan y pwyllgor y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio arfaethedig – craffu ar fysiau.

**Camau i'w cymryd:**

- Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i'w hysbysu o fwriad y pwyllgor i graffu ar y gorchymyn arfaethedig.

**Eitem 5: Ymgynghori ynghylch Rhaglenni Cystadleurwydd a Chyflogaeth Rhanbarth y Dwyrain**
**Papur: EIN(2) 01-07 (p3)**

5.1 Bu'r pwyllgor yn trafod Rhaglenni Cystadleurwydd a Chyflogaeth Rhanbarth y Dwyrain.

**Camau i'w cymryd:**

- Byddai'r clerc yn llunio ymateb drafft yn crynhoi sylwadau'r pwyllgor.

**Eitem 6: Gwasanaethau Rheilffyrdd Cymru**
**Papurau: EIN(2) 01-07 (p4)**
**EIN(2) 01-07 (p5)**

6.1 Bu'r pwyllgor yn trafod y ddarpariaeth o wasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru gyda chynrychiolwyr First Great Western; yr Adran Drafnidiaeth a Passenger Focus.

**Camau i'w cymryd:**

- Byddai First Great Western yn rhoi manylion o'r cynnydd o ran prisiau yn ystod y 5 a'r 10 mlynedd diwethaf ar gyfer tocynnau tr?dosbarth cyntaf ac ail ddosbarth agored.
- Byddai'r Adran Drafnidiaeth yn rhoi manylion cysylltu'r cynigwyr am fasnachfraint rheilffyrdd CrossCountry.

**Eitem 7: Blaenoriaethau Polisi a Deddfwriaethol yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer 2007**

**Papur: EIN(2) 01-07 (p6)**

7.1 Nodwyd gan y pwyllgor y materion perthnasol yn rhaglen waith y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer 2007.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**